




Welsh Gymnastics  
Gymnasteg Cymru



**2023**  
Adroddiad  
Blynyddol


# Neges gan ein Cadeirydd

Mae 2023 yn sicr wedi bod yn flwyddyn fawr i Gymnasteg Cymru. Yn yr Adolygiad Blynyddol hwn, byddwch yn darllen am lawer o newidiadau rydyn ni'n eu gwneud fel sefydliad.

Diogelu a sicrhau lles ein gymnastwyr, a phawb yn ein cymuned, yw ein prif flaenoriaeth o hyd. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr, yr wyf yn falch o'i arwain, wedi ymrwymo'n llwyr i'r flaenoriaeth hon. Cefnogir yr ymrwymiad hwn gan fuddsoddiad cynyddol mewn diogelu a lles sydd wedi codi 300%.

Efallai fod hyn yn amlwg, ond mae Gymnasteg Cymru yn bodoli i lywodraethu ein chwaraeon yng Nghymru ac i wasanaethu ein haelodau. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gwasanaethu ein haelodau'n effeithiol, mae'n rhaid i ni wrando. Gallaf ddweud yn hyderus ein bod wedi cyflawni hyn eleni, ac y byddwn yn parhau i wneud hynny.

Diolch i'r aelodau a'r gweithredwyr clwb hynny sydd wedi rhoi adborth gonest ac adeiladol ar sut gallwn ni eich cefnogi chi'n well. Y newid mwyaf nodedig rydyn ni wedi'i wneud,



o ganlyniad i'ch adborth chi, yw mabwysiadu system aelodaeth newydd. Gobeithio eich bod yn hoffi'r system newydd sydd wedi gwneud prosesu aelodaeth yn gyflymach ac yn haws. Mae hefyd wedi moderneiddio'r ffordd rydyn ni'n derbyn taliadau, gan ganiatáu ar gyfer adnewyddu awtomatig a debydau uniongyrchol. Yn hollbwysig, mae hefyd yn caniatáu blwyddyn aelodaeth fwy hyblyg sy'n golygu y byddwch chi'n ymuno am flwyddyn gyfan, waeth pryd y byddwch chi'n ymuno.

Mae llais ein gymnastwyr yn bwysig i ni ac er mwyn sicrhau bod y llais hwnnw'n cael ei glywed, rydyn ni wedi recriwtio 8 Llysgennad Gymnasteg. Maen nhw'n gweithio'n wych gyda'n tîm gweithredol i wirio, herio a llunio polisïau sy'n bwysig i'r bobl ifanc yn ein chwaraeon. Wrth i'r argyfwng costau byw barhau, rydyn ni wedi ymateb drwy rewi ein ffioedd aelodaeth am y drydedd flwyddyn yn olynol.

**fuddsoddiad cynyddol** mewn **diogelu**

**a lles**



sydd wedi codi

**300%**



“Heb y gymnastwyr, rhieni, hyfforddwyr, beirniaid, gweithredwyr, addysgwyr a gwirfoddolwyr, fyddai gymnasteg yng Nghymru ddim mor llwyddiannus ag ydyw.”




Rydyn ni hefyd wedi rhoi pob ceiniog o grant costau byw gan Chwaraeon Cymru yn ein cronfa Mynediad at Gymnasteg. Rydyn ni'n diolch i Chwaraeon Cymru yn ogystal â'r clybiau sy'n aelodau sydd wedi helpu i ymestyn y gronfa hon ymhellach fyth, drwy leihau cost ffioedd i'r teuluoedd hynny sy'n cael trafferthion ariannol. Dyma'r math o gydweithio sy'n dangos sut mae'r gymuned gymnasteg yng Nghymru yn dod at ei gilydd i gefnogi'r rheini mewn angen.

Rwy'n hyderus bod gennym y tîm iawn yn yr ystafell bwrdd, sy'n cynnwys penodi Yash Dave yn Gyfarwyddwr Cyllid yn ddiweddar - cyn chwaraewr criced proffesiynol - sy'n ymuno â ni gyda dros 20 mlynedd

o brofiad o weithio mewn cwmnïau FTSE 100 ac awydd i'n helpu i ddatblygu ein twf.

**Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb yn ein teulu gymnasteg am eich gwaith caled, eich penderfyniad a'ch ymroddiad. Heb y gymnastwyr, rhieni, hyfforddwyr, beirniaid, gweithredwyr, addysgwyr a gwirfoddolwyr, fyddai gymnasteg yng Nghymru ddim mor llwyddiannus ag ydyw.**



Mae 2023 hefyd wedi bod yn flwyddyn anhygoel i'n gymnastwyr perfformio. Mae ein gymnastwyr wedi cynrychioli Prydain Fawr mewn wyth digwyddiad Ewropeaidd a'r Byd ac rydyn ni wedi llwyddo'n rhyngwladol mewn nifer eang o ddigwyddiadau.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2024, rydyn ni'n aros i glywed pa wlad fydd yn cynnal Gemau'r Gymanwlad yn 2026 ac a fydd Ruby Jones a Poppy Stickler yn gwireddu breuddwydion y genedl o gael eu cynnwys yng Ngemau Olympaidd Paris 2024 drwy ymuno â Thîm Artistig Menywod Prydain Fawr – pob lwc i'r ddwy!

Rydyn ni'n gwybod bod heriau ar y gorwel. Bydd llai o gyllid cyhoeddus yn golygu bod angen i ni edrych ar y ffordd rydyn ni'n gweithio, gan sicrhau ein bod yn gallu arallgyfeirio ein ffrydiau incwm yn ogystal â chynhyrchu rhagor o incwm i fuddsoddi mewn tyfu ein chwaraeon.

**Beverley Smith**

Cadeirydd, Bwrdd Cyfarwyddwyr Gymnasteg Cymru



# Diogelu a Lles


**Yn anad dim, diogelu a lles ein gymnastwyr yw ein prif flaenoriaeth o hyd. Mae ein hymroddiad diwyro wedi golygu ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r nodau sydd yn ein Cynllun Diogelu a Lles, gan arwain at drawsnewid parhaus yn ein dull gweithredu.**


Ar ôl penodi Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Diogelu a Lles, rydyn ni'n arwain ac yn gweithredu cyfres o welliannau o ran sut rydyn ni'n cefnogi ein haelodau.


Mae ein Cyfarwyddwr Gweithredol newydd, ynghyd â'n Swyddog Diogelu a Lles Cenedlaethol, yn dod â phrofiad helaeth o'u rolau blaenorol yn amddiffyn plant yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r sector iechyd.


Er ein bod yn cael ein calonogi gan y newidiadau diwylliannol a strwythurol sydd wedi cael eu gwneud a'u croesawu gan deulu cyfan Gymnasteg Cymru – mae'n bwysig ein bod yn parhau ar drywydd i wella yn y tymor hir.

## Cyflawniadau Allweddol 2023


 Cynyddu ein buddsoddiad mewn diogelu **300%**


 Treialu sut gellir rhoi gwybod am bryderon a'u rheoli ar lefel clwb


 Penodi **Cyfarwyddwr Gweithredol** ar gyfer **Diogelu a Lles**


 **Mesurau diogelu gwell ar gyfer** carfanau perfformiad.


 Creu **Panel Rheoli Achosion yng Nghymru** fel bod panel o **ymarferwyr diogelu profiadol** yn gwrando ar yr holl bryderon


 Cyhoeddi ein **Cynllun Diogelu a Lles 3 blynedd**


 **Gwella'r** ffordd y rhoddir gwybod am bryderon drwy sefydlu **system adrodd a chyngor ar ddiogelu**

 Ailddiffinio rôl **Swyddogion Lles Clybiau** i ddod yn **Swyddogion Diogelu a Lles**, sy'n mynd ati i ymgysylltu â mesurau rhagweithiol

 Y gallu i **fynegi pryder** wedi'i wreiddio ym mhob tudalen o'n system aelodaeth a'n gwefan

 Gweithio gyda **Llysgenhadon Gymnasteg** i gefnogi'r gwaith o adolygu a datblygu **Cod Ymddygiad** newydd

 Sicrhau bod **Swyddogion Datblygu Gymnasteg** yn treulio o leiaf **20%** o'u hamser yn ymwneud â **Di and Wellbeing**

 **Adolygu ein polisiau, ein gweithdrefnau a'n hyfforddiant** i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cymru

# Cynhwysiant ac Amrywiaeth



Mae'r newidiadau diogelu sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd wedi creu argraff dda arna i. Rwy'n gwybod bod diogelu yn ymrwymiad difrifol i Gymnasteg Cymru ac mae hynny'n cael ei ategu gan waith a chefnogaeth wych eu tîm Diogelu.

**Swyddog Diogelu a Lles, Clwb Gymnasteg Castell-nedd Afan**

**Rydyn ni'n parhau i weithio'n galed i gynnal a chyflawni nodau uchelgeisiol i sicrhau bod gymnasteg yng Nghymru yn gynhwysol ac yn croesawu amrywiaeth**

## Y Gronfa Galedi

- **£91,000** - wedi'i fuddsoddi mewn rhaglenni caledi gan Gymnasteg Cymru a Chwaraeon Cymru, i gefnogi gymnasteg yn ein clybiau a'n carfanau perfformio.
- **Cymorth Uniongyrchol** - gan aelodau a chlybiau i gefnogi gymnastwyr ymhellach lle mae cyllid yn eu rhwystro rhag cymryd rhan.
- **Partneriaethau Clybiau** –
  - Gweithio gyda rhaglen Fit and Fed Street Games
  - Gweithio gydag archfarchnadoedd lleol i gefnogi pantris cymunedol
  - Gostyngiadau yn ôl disgrisiwn a llefydd am ddim

## Gwobr Aur inSport

- **Aur InSport** – a dyfermir gan Chwaraeon Anabledd Cymru – Gymnasteg Cymru yw un o ddim ond 2 gorff llywodraethu i ennill y wobr aur.

## Yr Iaith Cymraeg

- Rhoi cyfle i ddysgwyr Cymraeg siarad Cymraeg yn y gweithle.
- Llinell gymorth ddwyieithog bwrpasol i aelodau.

## Datblygu Clybiau

- Addysg i hyfforddwyrs sy'n fenywod – rhaglen wedi'i chynllunio i annog menywod o amrywiaeth eang o gefndiroedd i ddod yn hyfforddwyrs.
- Clybiau a sefydlwyd mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

## Clwb Gymnasteg Wye

Am flwyddyn i Clwb Gymnasteg Wye sydd wedi trawsnewid ei dderbynfa i wneud lle ar gyfer pantri cymunedol, ac ennill Clwb Cynhwysiant y Flwyddyn Gymnasteg Prydain.

**Derbyniodd Gymnasteg y Cymoedd £2,000 fel rhan o'r Gronfa Galedi i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cymryd rhan mewn gymnasteg.**

Mae'r Gronfa Galedi wedi eu galluogi i gynnig gweithgareddau gymnasteg am ddim i ferched 7-14 oed ar brynawn Sadwrn. Drwy ei rhaglen Fit and Fed, mewn partneriaeth â Street Games, mae rhwng 15-35 o blant wedi cymryd rhan mewn rhaglenni gwyliau ysgol bob wythnos.



# Datblygu

Moderneiddio a darparu gwerth i'n haelodau fu'r prif flaenoriaethau i'r tîm datblygu eleni.

## System Aelodaeth Ddigidol

Gan ymateb i adborth gan ein haelodau, rydyn ni wedi moderneiddio ein system aelodaeth. Mae ein system aelodaeth ddigidol newydd ar gyfer Cymru wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth â Sport 80, yr arbenigwyr CRM chwaraeon. Mae cam un y system wedi arwain at y gwelliannau canlynol:

### Cam Un

Cofrestru cyflymach ar gyfer aelodau a llai o weinyddu ar gyfer clybiau

Adnewyddu awtomatig – mae 48% o aelodau bellach yn dewis adnewyddu

Debydau uniongyrchol

Aelodaeth am 12 mis o'r adeg y byddwch chi'n ymuno.

Gallu mynegi pryder a rhoi adborth fel rhan o swyddogaethau'r system

Integrated DBS checking service

## Yswiriant

Mae pecyn yswiriant Gymnasteg Cymru newydd hefyd wedi cael ei greu, gyda chefnogaeth Watkin Davies, Broceriaid Yswiriant yng Nghymru. Mae'r cynnig yswiriant uwch nawr yn cynnwys:

- Yswiriant Diogelu Incwm ar gyfer hyfforddwyr – os nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd anaf yn y gampfa
- Yswiriant Damweiniau Personol Uwch ar gyfer gymnastwyr – gan gynnwys mynediad at ffisiotherapi
- Mynediad at Gronfa Chwaraeon Allianz, drwy'r brocer yswiriant Watkin Davies



Ein rôl ni yw cefnogi ein haelodau a llywodraethu ein chwaraeon. Mae'r effaith a gawsom eleni wedi bod yn bellgyrhaeddol:

1 Ffioedd aelodaeth wedi'u rhewi am y drydedd flwyddyn yn olynol.

2 Sicrhau arbediad blynyddol cyfartalog o £200 i aelodau sy'n defnyddio ein cynllun Gwobrwyon Gymnasteg, sy'n fwy na digon i dalu cost pob lefel o ffioedd aelodaeth unigol.

3 Sicrhau buddsoddiad o £500,000 ar gyfer datblygu clybiau a chynaliadwyedd amgylcheddol, gan Chwaraeon Cymru a darparwyr grantiau eraill.

## Astudiaeth Achos

Sicrhodd 2 Glwb gyfanswm o £50,000 gan Grant Arbed Ynni Chwaraeon Cymru i osod paneli solar – Ysgol Gymnasteg Sir Gaerfyrddin a Chlwb Dawns a Gymnasteg Phoenix.



## Astudiaeth Achos

Dyfarwyd dros £10,000 ar y cyd i Neath Flyers, Dreigiau Dyffryn, Academi Gymnasteg Glannau Dyfrdwy a Chlwb Gymnasteg Wrecsam drwy Gronfa Allianz.


## Astudiaeth Achos

Llwyddodd Canolfan Gymnasteg Abertawe i gael dros £82,000, i ehangu i ofod newydd gan greu cyfleoedd i dros 500 o blant ar eu rhestr aros ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Perfformiad Artistig y Dynion.




# Mae aelodaeth ar gynydd!

Mae'r aelodaeth yn parhau i gynyddu, yn dilyn heriau Covid, gyda chlybiau'n cadw rhestrau aros a llawer yn gweithredu gyda dosbarthiadau llawn.



## Cystadlaethau a Digwyddiadau



Mae wedi bod yn gyfnod prysur i'r tîm digwyddiadau, paneli technegol, gwirfoddolwyr, hyfforddwyr a beirniaid. Rydyn ni wedi buddsoddi mwy yn y digwyddiadau gyda thîm sydd newydd ei benodi sy'n cynnwys Rheolwr Digwyddiadau a Swyddog Digwyddiadau sydd wedi ceisio safoni profiad y digwyddiad. Ni fyddem 'chwaith yn gallu darparu'r amrywiaeth o gyfleoedd cynhwysol o Gymnasteg i Bawb i Berfformiad Uchel ledled Cymru heb ymroddiad ac angerdd aelodau'r gymuned.

Ychwanegwyd cystadlaethau newydd at y strwythur gyda chyfleoedd Gymnasteg i Bawb ychwanegol Annette Brown, cystadlaethau TeamGym Cenedlaethol a'r ddarpariaeth Rythmig yn dyblu yn sgil cyflwyno digwyddiad newydd ar lawr gwlad, Home Nation international a digwyddiad ar ei newydd wedd, Cwpan Cymru a Future Hopes. Archwiliwyd cyfleoedd newydd drwy ffrydio byw a sgorio a byddant yn ymddangos wrth i ni symud ymlaen i'r flwyddyn newydd.

Mae cyflwyniad system aelodaeth Gymnasteg Cymru

yn sicr wedi cael ei fodloni gyda brwdfrydedd, mae'n ddiarnheul wedi gosod meincnod newydd ar gyfer cyfeillgarwch defnyddiwr ac mae'n uwchraddiad mawr o'r system flaenorol.

Cardiff Central Youth Club

## Dysgu a Datblygu

Heb weithlu medrus ac ymrwymedig o weithwyr proffesiynol, ni all gymnasteg ddioglydd.



Eleni, lanswyd hyfforddiant newydd i gynyddu cyfranogiad yn ogystal â chyllid i gefnogi hyfforddwyr a beirniaid newydd:

- 1 Lanswyd cwrs hyfforddwyr gweithgareddau i ateb y galw am fwy o gymnasteg hamdden. Gwelwyd 80 o hyfforddwyr gweithgareddau yn cymhwyso ledled Cymru gan greu 1,280 o gyfleoedd newydd ar gyfer gymnasteg hamdden mewn amgylcheddau cymunedol.
- 2 Cefnogaeth ariannol ar gyfer addysg beirniaid, gan fuddsoddi mewn hyfforddiant Rhanbarthol i Brevet a threuliau cynyddol gwirfoddolwyr.
- 3 Lanswyd Rhaglen Llysgennadon Gymnasteg, i sicrhau bod lleisiau ein gymnastwyr yn cael eu clywed yn uchel ac yn glir. Cafodd wyth Llysgennad eu recriwtio ac maen nhw wedi dylanwadu ar y cod ymddygiad newydd ac wedi mynychu diwrnodau staff i rannu eu profiadau.
- 4 Cynhaliwyd cyrsiau Lefel 1 wyneb yn wyneb yn wyneb ynwaith eto yn seiliedig ar adborth gan aelodau'r gymuned a'r Llysgennad.



Grŵp yr URDD yn hyfforddi i fod yn hyfforddwyr gweithgareddau

# Perfformiad


Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i gymnastwyr perfformio Cymru – wrth i gymnastwyr ym mhob maes ddilyn eu breuddwyd o efelychu llwyddiant Gemma Frizelle yng Ngemau'r Gymanwlad 2022 yn Birmingham.

Mae'r prif uchafbwyntiau ar gyfer gymnastwyr Perfformio Cymru yn cynnwys:

Proses Ddethol Ryngwladol fel rhan o garfan Prydain Fawr




MAG  
Northern  
European  
Team



**Jemima Taylor**  
Pencampwriaeth Iau y  
Byd 2023 (FIG)  
Ffotograffydd: Volker  
Minkus



**Poppy Stickler**  
Cwpan Her y Byd Paris 2023  
(Alamy) Ffotograffydd: ABACAPRESS



**Imogen  
Coslett**  
Cwpan Hapus



“Mae wedi bod yn wych bod yn rhan o'r llwybr perfformio a bod yn rhan o dîm. Rydw i wir yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu i'n galluogi i fynd ar deithiau, cwrdd â phobl newydd, gweld gwledydd newydd a chael profiad.”

**Ruby Evans –Gymnast Artistig Menywod**

## Blwyddyn o lwyddiant

### Fframwaith Datblygu Athletwyr

Mae'r Fframwaith Datblygu Athletwyr yn nodi cyfleoedd datblygu ar gyfer gymnastwyr, hyfforddwyr, a rhieni / gwarcheidwaid, gan gefnogi unigolion i ragori yn yr amgylchedd gymnasteg a thu hwnt. Rydyn ni'n cynnig:

<b>Gweithio gyda Rhieni mewn Chwaraeon</b>	<b>Sesiynau Maetheg</b>
<b>Prosesau sefydlu ac ymadael</b>	<b>Rhaglen ysgoloriaeth hyfforddi</b>
<b>Gymnast i Hyfforddwyr</b>	<b>Tiwtora</b>

### Pontio

Nod sefydlu prosesau sefydlu ac ymadael cadarn yw hwyluso pontio didrafferth drwy gydol y gwahanol gamau. Rydyn ni wedi cefnogi gymnastwyr i ennill cymwysterau hyfforddi a beirniadu:

- Cyrsiau Hyfforddi
- Cyrsiau Beirniadu
- Profiad Gwaith
- Titora i gefnogi nodau addysgol

### Bwrsariaethau

Mae parhau â'r fwrsariaeth perfformiad ynghyd â'r arian ychwanegol sydd ar gael drwy'r bwrsariaethau teithio daearyddol a rhyngwladol wedi helpu i ysgafnhau'r baich ar rai teuluoedd, gan alluogi unigolion i barhau â'u taith yn y gamp.

## Llais yr Athletwr

Mae sicrhau bod llais ein hathletwyr yn cael ei glywed yn bwysig. Felly, roeddem wrth ein bodd bod Jacob Edwards, y gymnastwr artistig wedi cael ei benodi i Gomisiwn Athletwyr Gemau'r Gymanwlad Cymru. Bydd yn helpu i lunio dyfodol rhaglen Gemau'r Gymanwlad Tîm Cymru.

Ar ben hyn, mae gymnastwyr yng nghamau uwch y llwybr perfformiad yn cael cynnig proses adolygu un-i-un ddwywaith y flwyddyn, gan gynnig llwyfan gwerthfawr ar gyfer gosod nodau a dadansoddi eu teithiau mewn modd myfyriol. Cynhelir cyfweiliadau ymadael i gofnodi'r profiadau amrywiol y bydd Gymnastwyr yn eu hwynebu drwy gydol eu teithiau, gyda'r argymhellion a gesglir yn gweithredu fel sail i wella'r sefydliad.

Ar ben hynny, mae llysgenhadon athletwyr yn cyfrannu'n weithredol drwy roi adborth adeiladol ar bolisiau sefydliadol, gan sicrhau dolen adborth barhaus ac mae cynnwys athletwyr ar baneli dethol ar gyfer dethol gymnastwyr i garfanau a chystadlaethau rhyngwladol wedi caniatáu i'w safbwyntiau ddylanwadu ar benderfyniadau hollbwysig. At hynny, aeth ein hathletwyr ati i sefydlu gwerthoedd ac ymddygiadau sefydliadol, gan feithrin amgylchedd cydweithredol sy'n canolbwyntio ar yr athletwr.



**Jacob Edwards,**  
Gymnastwr y  
Gymanwlad a  
benodwyd i Gomisiwn  
Athletwyr Gemau'r  
Gymanwlad Cymru



## Paneli Technegol

Hoffem ddiolch i'n **Paneli Technegol** sy'n gweithio'n ddiplino i ddatblygu ein disgyblaethau gymnasteg ledled Cymru a helpu i sicrhau bod rhaglen ddomestig gadarn o gystadlaethau a digwyddiadau. Ni fyddem yn gallu gwneud yr hyn a wnawn hebbydd nhw.



[Dathlu gwaith ein holl Baneli Technegol - Gymnasteg Cymru](#)

# Gwobrau Blynyddol

Ar ôl seibiant o dair blynedd mae Gwobrau Cenedlaethol Gymnasteg Cymru wedi dychwelyd o'r diwedd. Roedd yn gyfle i gydnabod a dathlu llwyddiannau ein gymnastwyr a chyfraniadau eithriadol clybiau ac unigolion at gymnasteg yng Nghymru.

Ymhlith yr enillwyr ar y noson roedd Academi Gymnasteg Glannau Dyfrdwy a enillodd wobwr Clwb y Flwyddyn a Gemma Frizelle, enillydd medal aur yng Ngemau'r Gymanwlad, a enillodd wobwr Gymnastwr y Flwyddyn.

Dangoswyd cydnabyddiaeth arbennig hefyd i Dr Lisa Gannon, sy'n gadael Bwrdd Gymnasteg Cymru, am ei chyfraniad rhagorol at y Bwrdd yn ystod ei chyfnod o 7 mlynedd fel aelod ohono.



Gemma Frizelle and Dr Lisa Gannon

Gymnast Y Blwyddyn

Gemma Frizelle  
(Llanelli Rhythmic Academy)

Cydnabyddiaeth Arbennig  
Dr Lisa Gannon

## Arwyr y Cyfnod Clo

Lauren Jones (Ruthin & Denbigh),  
Leah Whiffin (Cardiff Central),  
Sharon Evans (Carmarthenshire School of Gymnastics and Neath Afan)

## Gymnasteg i Bawb St Tydfils

Hyfforddwr Cymunedol  
Gareth Slocombe  
(YMCA Barry)

Arweinydd Ifanc  
Harrison Harris  
(Valleys Gymnastics Academy)

Arwr Tawel  
Kathy Jefferies  
(Welsh Schools)

Talent Newydd  
Ruby Evans  
(Clwb Cymru Caerdydd)

Hyfforddwr Perfformiad  
Paul Edwards  
(Olympus Gymnastics Club)

Clwb y Blwyddyn  
Deeside Gymnastics Academy



Deeside Gymnastics Academy



Paul Edwards (Olympus Gymnastics Club)

# Cyllid




Yn y flwyddyn 2022-2023, dangosodd Gymnasteg Cymru sefyllfa ariannol iach unwaith eto, fel yr adlewyrchir yn ei gyfrifon blynyddol. Llwyddodd y sefydliad i sicrhau trosiant o £2,110,683. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn cynnwys cefnogaeth sylweddol, a ddarparwyd gan Chwaraeon Cymru ar gyfer perfformiad a datblygiad. Mae'r gefnogaeth hon yn cyfrif am 58% o'n trosiant ac mae wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y sefydliad yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Yn deillio o'r heriau a gododd yn sgil pandemig COVID-19, mae'r ffaith bod y rhaglen ddomestig lawn a chyfleoedd hyfforddi wyneb yn wyneb wedi dychwelyd wedi cryfhau ein sefyllfa ariannol. Mae hyn wedi caniatáu i ni ailfuddsoddi arian i ddatblygiad y gamp ledled Cymru.


Wrth symud ymlaen, ein prif flaenoriaeth fydd arallgyfeirio a chynyddu ffrydiau reffeniw, y tu hwnt i fuddsoddiad cyhoeddus, wrth i ni baratoi ar gyfer gostyngiad sylweddol mewn cyllid, o ganlyniad i doriadau ehangach yn y sector cyhoeddus. Mae sicrhau nad yw'r toriadau hyn yn cael effaith negyddol ar ein rhaglenni yn brif flaenoriaeth, ac mae gwaith i gynhyrchu incwm ychwanegol o amrywiaeth eang o ffynonellau yn parhau o ddifrif.

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol diwedd y flwyddyn. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn dal i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## TROSIANT 22/23



## GWARIANT 22/23



# Ar y gorwel

## Mae 2024 yn addo bod yn llawn cyffro, yn y gampfa a'r tu ôl i'r llenni.

Rydyn ni'n aros yn eiddgar i glywed pwy fydd yn rhan o garfan Gymnasteg Artistig Menywod Tîm Prydain Fawr ar gyfer Gemau Olympaidd 2024 ym Mharis. Ddechrau 2024, byddwn hefyd yn darganfod y wlad fydd yn cynnal Gemau'r Gymanwlad 2026, lle bydd ein gymnastwyr yn chwifio'r faner yn falch dros Gymru.

Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth gorau posibl i'n gymnastwyr perfformio i sicrhau llwyddiant, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y gymuned gymnasteg i gryfhau ein rhaglenni a sicrhau llwybr perfformiad ar gyfer pob disgyblaeth.

Mae'r posibilrwydd o gynnwys gymnasteg fel para-chwaraeon yn dal i fod yn addawol dros ben er mwyn amrywio ac ehangu cyrhaeddiad ein chwaraeon. Mae addasu gymnasteg i ddarparu ar gyfer athletwyr ag anableddau nid yn unig yn cyd-fynd ag egwyddorion cynhwysiant a hygyrchedd, mae hefyd yn gyfle i greu llwyfan i unigolion sydd â galluoedd amrywiol ymgysylltu ag agweddau corfforol, meddyliol ac artistig gymnasteg, gan eu grymuso a gwneud iddyn nhw deimlo'n rhan o gymuned.

Mae'r galw am ein chwaraeon yn parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad o gyfleoedd sydd ar gael – fel y gwelwyd yn Arolwg Chwaraeon Ysgolion diweddaraf Chwaraeon Cymru, a oedd yn nodi galw nad oedd yn cael ei fodloni ar gyfer 30,024 o gyfleoedd gymnasteg a 53,627 o gyfleoedd trampolinio.

Yn ystod 2024, byddwn yn parhau i gefnogi clybiau i gynyddu eu capasiti a byddwn hefyd yn archwilio modelau cyflawni newydd er mwyn i ni allu dechrau ateb

y galw heb ei fodloni ar gyfer ein chwaraeon a rhoi cyfle i hyd yn oed mwy o bobl ifanc gymryd rhan.

Y tu allan i'r gampfa, byddwn yn parhau â'n gwaith o gyflawni yn erbyn ein cynllun Diogelu a Lles uchelgeisiol, a fydd yn cynnwys cyflwyno ein system diogelu Globocol, gan sicrhau y bydd pob clwb ac asiant darparu yn gallu rheoli eu prosesau diogelu drwy'r system. Bydd hyn yn ein helpu i gael darlun cynhwysfawr o'r dirwedd diogelu ar draws y gymuned gymnasteg yng Nghymru. Bydd y system hefyd yn cynnwys nodwedd i unrhyw un sydd â phryder allu adrodd amdano'n ddiennw os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Bydd cam dau y broses o ddatblygu ein system aelodaeth yn cael ei gyflwyno i glybiau a gweithredwyr gweithgareddau – bydd hyn yn rhoi'r opsiwn i bob gweithredwr ddefnyddio'r llwyfan aelodaeth i weithredu eu busnes, a fydd yn arbed amser ac yn lleihau costau. Bydd y system hefyd yn integreiddio â'n llwyfannau digidol eraill i ddarparu 'siop un stop' ar gyfer yr holl weithrediadau busnes ar gyfer darparwyr gweithgareddau gymnasteg.

2024 hefyd fydd y flwyddyn lle byddwn yn lansio ein strategaeth 10 mlynedd newydd. Bydd hyn yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn cefnogi pobl drwy eu taith gymnasteg, mewn lleoedd addas i'r diben; pob un yn seiliedig ar arferion (gorau) sy'n sicrhau bod gymnasteg â sicrwydd ansawdd yn cael ei darparu mewn amgylcheddau diogel, cadarnhaol, hwyliog a chynhwysol.

Ni allem wneud yr hyn a wnawn, heb gefnogaeth anhygoel ein holl aelodau, unigolion, hyfforddwyr a beirniaid, clybiau, ysgolion a chanolfannau hamdden, rhieni a gwirfoddolwyr. Diolch o galon i chi i gyd.

Diolch 

Hoffem hefyd gydnabod cefnogaeth ein partneriaid:

 Sports Wales  
Chwaraeon Cymru

 THE NATIONAL LOTTERY

 Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

 WSA  
Welsh Sports Association  
Cymdeithas Chwaraeon Cymru

 WIPIS  
WORKING WITH  
PARENTS  
IN SPORT

 CHWARAEON DISABILITY  
ANABLEDD SPORT  
CYMRU WALES

 global  
SPORT:80

 KUKRI

 Quatro  
FREEDOM TO PERFORM

 FB Curves  
3D GYM

[welshgymnastics.org](http://welshgymnastics.org)